Bu prynhawn dydd Gwener, 17 Tachwedd yn un hynod o brysur yn yr ysgol a phob plentyn yn eiddgar i wneud ei orau tuag at Gronfa Plant Mewn Angen. Daeth nifer ohonynt i'r ysgol mewn gwisg ffansi a'r prifathro yn eu plith yn hynod o liwgar. Bu rhai o'r plant wrthi'n casglu arian cyn y diwrnod - Rhys Dobson, Sara Beechey a Sion James ar daith redeg noddedig a Charlotte Read, Louise Foley, Nicola Harding ac Emma Egan yn casglu ceiniogau. Cyflwyniad llafar yn seiliedig ar hanes yr Ifaciwis oedd cyfraniad y plant hŷn a chafwyd cwmni nifer fawr o rieni yn y gynulleidfa. Daeth Jeifin Jenkins heibioyn ystod y prynhawn a'r plant yn falch o'i weld eleni eto.

Cymerodd tîm o'r ysgol ran yng nghwis yr Urdd yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth ar 20 Tachwedd. Gwnaethant waith canmoladwy iawn gan gyrraedd y trydydd safle ar ddiwedd y noson. Cymerwyd rhan hefyd yng nghwis llyfrau ail iaith Llyfrgell Dyfed. Ni fu cystal llwyddiant yno ond pwysigrwydd cystadleuaeth o'r fath yw hybu a gloywi'r Gymraeg ymysg y dysgwyr. Daliwch ati bob un.

Ail berformiwyd cyflwyniad "Yr Ifaciwis" a daeth nifer fawr o rieni ynghyd. Diolch iddynt am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i gyfrannu tuag at yr ysgol. Gobeithiwn hefyd groesawu Cymdeithas yr Ymddeolwyr i'r ysgol un prynhawn ddechrau Rhagfyr a chyflwyno'r perfformiad iddynt hwythau hefyd.